# DOD O HYD I GYFLEUSTERAU RHEOLI GWASTRAFF

## CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL



**Ionawr 2017**

CARDIFF
CAERDYDD

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 1 |
| 2. Cyd-destun y Polisi | 1 |
| Polisi Ewropeaidd | 1 |
| Polisi Cenedlaethol | 1 |
| Polisi Lleol | 2 |
| 3. Cwmpas y Canllawiau | 3 |
| 4. Egwyddorion Sylfaenol | 4 |
| Hierarchaeth Gwastraff | 4 |
| Rhwydwaith Integredig a Digonol | 4 |
| Gweithfa Briodol Agosaf | 4 |
| Hunangynhaliaeth | 4 |
| Diogelu Iechyd Pobl a'r Amgylchedd | 4 |
| 5. Yr Angen am Gyfleusterau Rheoli Gwastraff | 5 |
| 6. Ystyriaethau Lleoliadol | 5 |
| Lleoliadau Priodol mewn Egwyddor | 5 |
| Gofynion Lleoliadol Penodol | 6 |
| 7. Ystyriaethau Amgylcheddol | 7 |
| Allyriadau | 8 |
| Adar a Fermin | 8 |
| Llwch | 8 |
| Ansefydlogrwydd Tir | 8 |
| Ysbwriel | 8 |
| Cadwraeth Natur ac Archeolegol | 8 |
| Sŵn | 9 |
| Arogleuon | 9 |
| Amddiffyn Dŵr Wyneb a Dŵr Daear | 9 |
| Trafnidiaeth | 9 |
| Effaith Weledol | 9 |
| 8. Mesurau Lliniarol | 10 |
| Amodau Cynllunio | 10 |
| Oriau Gweithredu | 10 |
| 9. Trwyddedu | 10 |
| 10. Asesiadau Cynllunio Gwastraff | 10 |


**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd**

# 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r nodyn canllaw cynllunio atodol hwn yn ychwanegu at y polisïau a fabwysiadwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol Caerdydd mewn perthynas â lleoliad cyfleusterau rheoli gwastraff.

1.2 Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r defnydd o ganllawiau cynllunio atodol i amlinellu canllawiau manwl ar y ffordd y bydd polisïau cynllun datblygu'n cael eu gweithredu mewn amgylchiadau neu ardaloedd penodol. Mae'n rhaid i Ganllawiau Cynllunio Atodol fod yn gyson â pholisïau cynllun datblygu a chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol. Mae canllawiau cynllunio atodol yn helpu i sicrhau bod polisïau a chynigion yn cael eu deall yn well a'u gweithredu'n fwy effeithiol. Nid oes ganddynt yr un statws â'r cynllun datblygu mabwysiedig, ond maent yn ystyriaeth hanfodol wrth benderfynu p'un a dderbynnir ceisiadau cynllunio.

1.3 Mae'r canllaw cynllunio atodol hwn wedi cael ei gynhyrchu i ddarparu manylion pellach ar y polisïau gwastraff canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol:

- 'Gwastraff' KP12;
- 'Safleoedd ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff' W1.

1.4 Bwriedir iddo:

- Ddynodi'r datblygiadau y mae'r polisïau'n ymwneud â nhw;
- Dynodi lleoliadau sy'n dderbyniol, mewn egwyddor, ar gyfer cyfleusterau gwastraff; a
- Darparu cyngor i ddarpar ymgeiswyr a'r cyhoedd ynglŷn â'r meini prawf a ddefnyddir wrth ystyried cynigion ar gyfer cyfleusterau gwastraff.

# 2. CYD-DESTUN Y POLISI

### POLISI EWROPEAIDD

2.1 Mae'r **Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff** (2008/98/EC) yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer casglu, cludo, adfer a gwaredu gwastraff. Mae'n gofyn i aelod-wladwriaethau sefydlu rhwydwaith integredig a digonol o weithfeydd ar gyfer gwaredu gwastraff ac adfer gwastraff trefol cymysg. Dylai'r rhwydwaith fod yn ddigonol i drin yr ystod a'r maint o wastraff a gesglir.

2.2 Mae'r **Gyfarwyddeb Tirlenwi** (1999/31/EC) yn amcanu rhwystro neu leihau effeithiau negyddol tirlenwi ar yr amgylchedd, trwy gyflwyno gofynion technegol llym ar gyfer tirlenwi gwastraff a gosod targedau ar gyfer lleihau'r maint o wastraff trefol pydradwy sy'n mynd i safle tirlenwi. Bydd angen cyfleusterau i reoli gwastraff sydd wedi cael ei ddargyfeirio o safle tirlenwi, yn ogystal â chyfleusterau i waredu ffrydiau gwastraff sydd wedi cael eu gwahardd rhag cael eu gwaredu trwy dirlenwi.

**POLISI CENEDLAETHOL**

2.3 Mae polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru ar reoli gwastraff yn y ddogfen **Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned**, fframwaith trosfwaol hirdymor ar gyfer rheoli gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau yng Nghymru tan 2050. Mae'n amlinellu sut bydd Cymru'n lleihau'r maint o wastraff mae'n ei gynhyrchu a sut y bydd yn trawsnewid i fod yn gymdeithas sy'n ailgylchu llawer. Mae'n gosod y targedau allweddol canlynol:

- Ailgylchu o leiaf 70% ym mhob sector erbyn 2025;
- Dim gwastraff erbyn 2050, pan gyflenwir pob cynnyrch a gwasanaeth gyda golwg ar rwystro gwastraff.

2.4 Er mwyn cyflenwi'r canlyniadau hyn, mae cyfres o 'gynlluniau sector' wedi cael eu cynhyrchu sy'n cynnwys targedau a pholisïau penodol. Mae **Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd** yn amlinellu cynlluniau tymor canolig ar gyfer y gwasanaethau casglu gwastraff, seilwaith ailbrosesu a marchnadoedd ailgylchol a fydd eu hangen ledled Cymru. Mae hefyd yn esbonio'r angen am gyfleusterau ar gyfer adfer a gwaredu gwastraff na ellir ymdrin ag ef ymhellach i fyny'r hierarchaeth yn gynaliadwy.

2.5 Mae **Nodyn Cyngor Technegol 21 'Gwastraff'** yn amlinellu'r fframwaith er mwyn hwyluso'r broses o gyflenwi seilwaith rheoli gwastraff cynaliadwy trwy'r broses gynllunio. Mae'n nodi y dylai awdurdodau cynllunio, wrth ystyried cynlluniau datblygu ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff, ystyried eu cyfraniad posibl at yr amcanion, yr egwyddorion a'r asesiadau gwastraff strategol a amlinellir yn y ddogfen 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' a chynlluniau sector perthnasol. Mae'n mynnu bod ceisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn cael eu cyflwyno ynghyd ag asesiad cynllunio gwastraff, sy'n cynnwys gwybodaeth ddigonol i ganiatáu asesiad o'r cais a'i gyfraniad at fodloni'r gofynion a amlinellir gan Gynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd. Mae Nodyn Cyngor Technegol 21 yn darparu cyngor ar leoliadau priodol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff.

2.6 Mae pennod 12 **Polisi Cynllunio Cymru** yn bwriadu sicrhau bod cyfleusterau priodol yn cael eu sefydlu i ddiwallu amcanion rheoli gwastraff Llywodraeth Cymru. Dylid ystyried lleoliadau addas ar gyfer rheoli gwastraff fel rhan o baratoadau'r cynllun. Bydd y graddau y mae cynnig rheoli gwastraff yn dangos cyfraniad at yr amcanion, polisïau, targedau ac asesiadau rheoli gwastraff sydd yn y polisi gwastraff cenedlaethol yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

**POLISI LLEOL**

2.7 Mae'r canllaw cynllunio atodol hwn yn darparu mwy o fanylion ar bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol, 'Gwastraff' KP12 a 'Safleoedd ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff' W1.

2.8 Mae polisi KP12 yn nodi:
Bydd gwastraff sy'n deillio o Gaerdydd yn cael ei reoli trwy:

i. Hyrwyddo a chefnogi cyfleusterau, mesurau a strategaethau rheoli gwastraff cynaliadwy, ychwanegol yn unol â Chynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (2012) a Nodyn Cyngor

Technegol 21 (2014) mewn modd sy'n glynu wrth yr hierarchaeth gwastraff a'r egwyddorion o rwydwaith gweithfeydd gwastraff integredig a digonol; gweithfa briodol agosaf; hunangynhaliaeth ac amddiffyn iechyd pobl a'r amgylchedd;

ii. Annog y ddarpariaeth o gyfleusterau trin dan do ar fannau diwydiant cyffredinol sydd ohoni ac a glustnodwyd;

iii. Cefnogi darpariaeth a chynhaliaeth trefniadau rheoli gwastraff cynaliadwy ar gyfer cadw a chasglu ym mhob datblygiad priodol newydd; a

iv. Chefnogi atal ac ailddefnyddio gwastraff a darparu cyfleusterau sy'n defnyddio cynhyrchion a ailgylchwyd neu a wnaethpwyd yn gompost.

2.9 Mae polisi W1 yn nodi:

Bydd cynigion ar gyfer datblygu cyfleusterau rheoli gwastraff yn cael eu caniatáu pan fodlonir y canlynol:

i. Mae prawf bod angen cyfleusterau wrth ystyried anghenion rhanbarthol;

ii. Maent yn cydymffurfio â'r hierarchaeth a'r egwyddorion sydd yng Nghyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff Rhwydwaith Integredig a Digonol; Gweithfa briodol agosaf; Hunangynhaliaeth ac amddiffyn iechyd pobl a'r amgylchedd;

iii. Ni fyddent yn achosi niwed annerbyniol i'r amgylchedd, treftadaeth adeiledig neu iechyd pobl;

iv. Maent yn cynnwys cynigion derbyniol ar gyfer adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd, gan gynnwys yr ôl-ddefnydd buddiol o isgynhyrchion;

v. Ni fyddent yn peryglu diogelwch awyrennau;

vi. Maent yn cynnwys cynigion derbyniol ar gyfer amddiffyn tir cyfagos neu gyffiniol rhag nwyon safleoedd tirlenwi ac ymfudiad neu halogiad trwytholch;

vii. Nid ydynt wedi eu lleoli mewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd;

viii. Ni fyddent yn achosi llygredd aer, sŵn neu olau annerbyniol, llwch, dirgryniadau neu arogleuon, neu'n denu gormod o fermin;

ix. Maent yn darparu dulliau diogel o gael mynediad at y briffordd a mannau parcio ar y safle a chyfleusterau troi digonol; ac

x. Maent yn cael eu cyflwyno ynghyd ag asesiad cynllunio gwastraff sy'n cynnwys gwybodaeth ddigonol i ganiatáu asesiad o'r cais.

Bydd cyfleusterau ar gyfer trafod, trin a throsglwyddo gwastraff ar y cyfan yn cael eu hannog i ddefnyddio tir diwydiannol cyffredinol dosbarthiad B2 sydd ohoni.

## 3. CWMPAS Y CANLLAWIAU

3.1 Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar asesu cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ofynnol i gyflenwi amcanion Tuag at Ddyfodol Diwastraff a'r cynlluniau sector cysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfleusterau lle caiff cynhyrchion eu paratoi i gael eu hailddefnyddio;

- Cyfleusterau ailddefnyddio;
- Cyfleusterau gwahanu gwastraff;
- Cyfleusterau ailgylchu neu adfer;
- Safleoedd gwneud compost;
- Cyfleusterau casglu gwastraff – safleoedd amwynderau dinesig, safleoedd dod â gwastraff, ierdydd sborion ayyb;
- Gorsafoedd trosglwyddo gwastraff;
- Prosesau thermol, e.e. nwyeiddio, pyrolysis;
- Triniaeth thermol (heb neu gyda phroses adfer ynni); a
- Gweithrediadau tirlenwi neu godi tir.

3.2 Dylai'r fath gyfleusterau fedru ymdrin â'r ystod lawn o ffrydiau gwastraff a dderbynnir. Mae'r fath ffrydiau gwastraff yn cynnwys:

- Gwastraff trefol;
- Gwastraff diwydiannol;
- Gwastraff masnachol;
- Gwastraff adeiladu a dymchwel;
- Gwastraff clinigol, peryglus neu arbennig; a
- Gwastraff amaethyddol.

## 4. EGWYDDORION SYLFAENOL

4.1 **HIERARCHAETH GWASTRAFF**

Dylai pob cynnig ar gyfer datblygu cyfleusterau rheoli gwastraff ledled y sir gydymffurfio ag egwyddor hierarchaeth gwastraff. Mae hyn yn hierarchaeth ddamcaniaethol lle mae'r gwahanol opsiynau ar gyfer rheoli gwastraff yn ymddangos yn nhrefn blaenoriaeth. Mae'r hierarchaeth yn ffafrio atal ac ailddefnyddio, a dilynir y rhain gan: baratoi i ailddefnyddio, ailgylchu, adfer ac, yn olaf, gwaredu. Dylai'r nod fod yn un o sicrhau bod gwastraff yn cael ei osod mor uchel â phosibl ar yr hierarchaeth.

4.2 **RHWYDWAITH INTEGREDIG A DIGONOL**

Y nod bras yw cyflawni system rheoli gwastraff gynaliadwy trwy sicrhau y darperir rhwydwaith integredig a digonol o weithfeydd gwastraff a fydd yn galluogi i amcanion yr hierarchaeth gwastraff gael eu cyflenwi'n ymarferol.

4.3 **GWEITHFA BRIODOL AGOSAF**

Dylid gwaredu neu adfer gwastraff yn un o'r gweithfeydd priodol agosaf, wrth sicrhau bod yr amgylchedd ac iechyd pobl yn cael eu hamddiffyn. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n bwysig bod ystod eang o gyfleusterau rheoli gwastraff ar gael, fel y gellir rheoli gwastraff mor agos â phosibl at y man lle caiff ei osod.

4.4 **HUNANGYNHALIAETH**

Dylai cynigion gefnogi'r nod o symud at hunangynhaliaeth o ran rheoli gwastraff, er nad yw'n angenrheidiol i bob ardal gael yr ystod lawn o gyfleusterau gwastraff gellid bod eu hangen.

4.5 **DIOGELU IECHYD POBL A'R AMGYLCHEDD**
Dylai cynigion ar gyfer cyfleusterau gwastraff gael eu cynllunio a'u lleoli fel y gellir sicrhau lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl.

## 5. YR ANGEN AM GYFLEUSTERAU RHEOLI GWASTRAFF

5.1 Mae'n bwysig dangos bod galw am gyfleusterau rheoli gwastraff er mwyn asesu cyfraniad cynnig at ddatblygu rhwydwaith seilwaith gwastraff integredig a digonol yn yr ardal leol. Gallai tanddarparu neu orddarparu cyfleusterau annog mewnforio neu allforio gwastraff dros bellterau hirach, yn groes i'r egwyddorion sylfaenol a nodwyd uchod. Mae'n bwysig hefyd sicrhau bod yr angen yn drech nag unrhyw niwed anffafriol posibl i'r amgylchedd neu iechyd pobl.

5.2 Mae Nodyn Cyngor Technegol 21 yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol, wrth ystyried cynlluniau datblygu ar gyfer cyfleusterau gwastraff, ystyried eu cyfraniad posibl at yr amcanion, yr egwyddorion a'r asesiadau gwastraff strategol a amlinellir yn y ddogfen ‘Tuag at Ddyfodol Diwastraff’ a Chynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd.

5.3 Ar hyn o bryd, mae'r dogfennau hyn yn nodi angen parhaus ar gyfer datblygu mwy o gyfleusterau trin ac adfer gwastraff yn y tymor byr i ganolig, er mwyn lleihau'r maint o wastraff a waredir trwy dirlenwi. Y nod tymor hir yw datblygu rhwydwaith seilwaith gwastraff integredig a digonol wedi'i seilio ar lefelau uchel o ailddefnyddio ac ailgylchu. Mae hyn yn golygu, ar hyn o bryd, bod angen cyfleusterau rheoli gwastraff pellach a fydd yn cyfrannu at y nodau hyn. Bydd y graddau y mae cynnig yn dangos cyfraniad at yr amcanion tymor byr, canolig a hir hyn yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

5.4 O dan ddarpariaethau Nodyn Cyngor Technegol 21, mae Llywodraeth Cymru yn mynnu y dylid sefydlu trefniadau ar y cyd ar gyfer monitro gwastraff rhwng awdurdodau cynllunio lleol, ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Bwriedir i Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff gael eu cynhyrchu, a fydd yn cynnwys gwybodaeth ar wastraff a ragwelir a data cynhwysedd sydd ohoni er mwyn penderfynu p'un a oes galw am gyfleusterau gwastraff pellach ym mhob rhanbarth. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r trefniadau monitro eto i gael eu sefydlu, ond dylai hyn ddigwydd, yna caiff y data ei ddefnyddio i benderfynu p'un a oes galw.

## 6. YSTYRIAETHAU LLEOLIADOL

### LLEOLIADAU PRIODOL MEWN EGWYDDOR

6.1 Y lleoliadau mwyaf addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd bydd y rhai hynny gyda'r effeithiau anffafriol lleiaf ar iechyd pobl a'r amgylchedd lleol ac a fydd yn caniatáu i'r cynigion wneud y cyfraniad mwyaf sylweddol at ddarparu rhwydwaith integredig a digonol.

6.2 Wrth i wastraff gael ei drin yn uwch i fyny'r hierarchaeth gwastraff, mae'n debygol y bydd nifer o gyfleusterau gwastraff modern yn cynnwys prosesau diwydiannol na fyddant yn wahanol i unrhyw gyfleusterau diwydiannol eraill o ran eu golwg, amodau gweithredu neu eu heffaith ar yr ardal leol. Bydd cyfleusterau rheoli gwastraff, felly, yn cael eu hannog i gael eu lleoli mewn ardaloedd diwydiannol cyffredinol (dosbarthiad B2) sydd ohoni neu a glustnodwyd, oni bai y gellid profi y gellir eu lleoli'n dderbyniol mewn man arall.

6.3 Mae map cynigion y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi mannau sydd wedi cael eu clustnodi ar gyfer diwydiant cyffredinol. Byddai cyfleusterau gwastraff hefyd yn dderbyniol mewn egwyddor mewn mannau eraill sydd ohoni a ddefnyddir at ddiben diwydiant cyffredinol. Caiff 'Monitor Banc Tir Busnes a Diwydiannol Caerdydd' ei gynhyrchu gan y cyngor yn flynyddol ym mis Gorffennaf ac mae'n darparu gwybodaeth am ddosraniadau a chaniatadau diwydiannol nas gweithredwyd ledled y sir, gan gynnwys y rheini at ddefnydd B2.

6.4 O ystyried y gall cyfleusterau rheoli gwastraff achosi nifer sylweddol o symudiadau cerbydol, dylai safleoedd gael eu lleoli'n dda yn nhermau'r rhwydwaith ffyrdd sylfaenol. Dylid ystyried yn ogystal ffyrdd eraill o deithio, lle bo'n bosibl.

6.5 Bydd angen ystyried goblygiadau amgylcheddol manwl cynigion penodol yn llawn pan dderbynnir unrhyw geisiadau cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol.

**GOFYNION LLEOLIADOL PENODOL**

6.6 Nid yw safleoedd diwydiannol cyffredinol yn debygol o fod yn addas ar gyfer gweithrediadau tirlenwi neu gompostio rhenciau. Rhoddir ystyriaeth ofalus i leoliad cyfleusterau gwastraff sy'n debygol o greu llwch, ysbwriel neu sŵn na allent ychwaith gael eu lleoli'n addas o fewn ardaloedd diwydiannol cyffredinol.

6.7 Gellid bod yn fuddiol lleoli cynigion ar gyfer cyfleusterau gwastraff sy'n cynnwys adfer gwres o wastraff trefol cymysg yn agos at ddefnyddwyr gwres. Rhoddir ystyriaeth ofalus i addasrwydd lleoli'r cyfleusterau hyn gyda'i gilydd ochr yn ochr â darpar ddefnyddwyr.

6.8 Wrth i wastraff gael ei drin fwyfwy trwy ailddefnyddio, gallai fod mwy o geisiadau i leoli cyfleusterau o fewn ardaloedd masnachol neu ffryntiadau manwerthu. Gallai cyfleusterau ailddefnyddio sy'n cynnwys cadw a throsglwyddo gael eu lleoli'n briodol ar dir busnes, yn dibynnu ar natur y broses ddiwydiannol gysylltiedig. Gallai cyfleusterau sy'n cynnwys ailwerthu nwyddau gael eu lleoli'n briodol mewn ffryntiadau manwerthu lle nad oes effaith niweidiol ar swyddogaeth siopa'r ganolfan neu'r ffryntiad unigol, lle gellir cynnal blaen siop, a lle ceir mynediad digonol ar gyfer danfoniadau a chasgliadau.

6.9 Bydd gofynion lleoliadol mwy llethol yn berthnasol i rai ffrydiau gwastraff, yn arbennig gwastraff peryglus. Mae gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus gyda'i gilydd wedi'i wahardd gan y Gyfarwyddeb Tirlenwi. Caiff gwastraff peryglus a fwriedir ar gyfer safle tirlenwi ei gyfeirio at safle tirlenwi gwastraff peryglus neilltuedig. Mae'r Gyfarwyddeb Tirlenwi hefyd yn gosod gofynion llymach ar wastraff peryglus a anfonir at safle tirlenwi. Gallai fod yn ofynnol i'r fath wastraff gael triniaeth ychwanegol cyn tirlenwi. Mae Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn cydnabod ei bod hi'n annhebygol y bydd safle tirlenwi gwastraff peryglus newydd yn cael ei ddatblygu yng Nghymru am fod cyn lleied o wastraff peryglus sydd angen mynd i safle tirlenwi yn cael ei gynhyrchu ac mae cyfleusterau digonol ar gyfer gwaredu'r fath wastraff yn bodoli ym mhedwar safle tirlenwi o fewn 40 milltir i ffin Cymru yn Lloegr i ymdrin â gwastraff peryglus a gynhyrchir. Os bydd yr adroddiadau monitro blynyddol sydd i'w darparu, fel y gosodwyd yn Nodyn Cyngor Technegol 21, yn nodi diffyg o ran darparu safleoedd ar gyfer gwaredu neu drin gwastraff peryglus yn ardal dde-ddwyrain Cymru, yna caiff cais ei asesu yn erbyn Polisi W2.

6.10 Mae'r Gyfarwyddeb Tirlenwi yn darparu cyngor lleoliadol penodol ar gyfer safleoedd tirlenwi. Dylid ystyried y canlynol:

- Y pellter o ffin y safle i ardaloedd preswyl a hamdden, dyfrffyrdd, cyrff dŵr, a safleoedd trefol neu amaethyddol eraill. Dylid lleoli cyfleusterau tirlenwi o leiaf 250m o adeilad a ddefnyddir;
- Topograffi'r safle a'r effaith ar brydferthwch a chymeriad tirwedd;
- Yr effaith ar y rhwydwaith ffyrdd;
- Bodolaeth dŵr daear, dŵr arfordirol neu byrth gwarchod natur yn yr ardal;
- Gwarchodaeth natur neu dreftadaeth ddiwylliannol yr ardal; a
- Phresenoldeb meysydd awyr neu hofrenfeydd cyfagos.

6.11 Caiff yr angen am safleoedd tirlenwi gwag ychwanegol ei asesu yn erbyn y gofynion rhanbarthol a amlinellir yng Nghynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd.

## 7. YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL

7.1 Gall cynigion rheoli gwastraff beri pryder oherwydd nodweddion y gweithgareddau prosesu eu hunain, yn ogystal â'r broses o gludo deunyddiau i'r safle ac i ffwrdd ohono. Dylid mynd i'r afael ag ystod eang o ystyriaethau amgylcheddol mewn unrhyw gynnig er mwyn sicrhau y caiff unrhyw effaith niweidiol bosibl ei lleihau. Lle bydd yr effaith amgylcheddol yn annerbyniol ac ni ellir ei gostwng, mae'n annhebygol y rhoddir caniatâd cynllunio.

7.2 Bydd rhaid i bob cynnig sy'n dod o dan Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016 fod yn ddarostyngedig i asesiad o'r effaith amgylcheddol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithfeydd gwaredu gwastraff ar gyfer llosgi, trin yn gemegol, neu dirlenwi gwastraff peryglus a gwastraff arall lle mae'r capasiti'n mynd y tu hwnt i 100 tunnell y dydd.

7.3 O ran cynigion sy'n dod o dan Atodlen 2 y rheoliadau hyn, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn darparu opsiwn sgrinio i benderfynu a oes angen asesiad o'r effaith amgylcheddol. Byddai'r cynigion sy'n dod o dan Atodlen 2 yn cynnwys y rhai hynny lle:

- Gwaredir trwy losgi; neu
- Mae'r ardal ddatblygu yn fwy na 0.5ha; neu
- Mae'r weithfa wedi'i lleoli o fewn 100m o unrhyw ddyfroedd a reolir; neu
- Os bydd unrhyw ran o fewn 'ardal sensitif' fel y diffinnir yn Rheoliad 2(1) Rheoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol 2016.

## YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL CYFFREDINOL

### ALLYRIADAU

7.4 Gall allyriadau atmosfferig achosi pryder cyhoeddus a gall materion ansawdd aer fod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. Rheolir allyriadau trwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 a chânt eu rheoleiddio gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

### ADAR A FERMIN

7.5 Gall safleoedd rheoli gwastraff ddenu adar a fermin. Gall fermin gyflwyno perygl iechyd posibl. Gall adar sy'n ymgasglu fod yn boendod i gymunedau preswyl sy'n agos at gyfleusterau, ond gallant hefyd achosi perygl sylweddol i ddiogelwch awyrennau. Caiff pob cais ar gyfer safle tirlenwi, neu ardaloedd lle cedwir gwastraff dros dro yn yr awyr agored, sydd o fewn wyth milltir i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd ei gyfeirio at yr Awdurdod Hedfan Sifil er mwyn iddynt gael gwneud sylwadau, a chaiff pob cais ar gyfer safle tirlenwi sydd o fewn deng milltir i RAF Sain Tathan ei gyfeirio at y Weinyddiaeth Amddiffyn.

### LLWCH

7.6 Gall llwch beri poendod a gall materion ansawdd aer fod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. Gellid gosod amodau cynllunio sy'n mynnu bod gweithredwyr gwastraff yn paratoi cynllun neu'n gorfodi mesurau i leihau allyriadau llwch.

### ANSEFYDLOGRWYDD TIR

7.7 Dylid ymchwilio i sefydlogrwydd y safleoedd gwastraff arfaethedig a dylunio cyfleusterau yn unol â chanfyddiadau'r ymchwiliadau. Dylai unrhyw dirffurf newydd sydd o ganlyniad i dirlenwi neu godi tir fod yn sefydlog a dylai gael ei dylunio i gyd-fynd â graddfa a natur y dopoleg amgylchynol.

### YSBWRIEL

7.8 Gall safleoedd tirlenwi, gorsafoedd trosglwyddo gwastraff a safleoedd amwynderau dinesig beri problemau o ran ysbwriel. Dylai cynlluniau a gweithdrefnau gweithredu gael eu defnyddio i leihau effaith y problemau hyn.

## CADWRAETH NATUR AC ARCHEOLEGOL

7.9 Mewn achosion pan fo diddordeb ecolegol sylweddol, neu os tybir bod diddordeb o'r fath, ar neu'n gyfagos at safleoedd datblygu arfaethedig, dylid cyflawni arolwg ecolegol/daearegol/o'r pridd cyn y caiff penderfyniad ei wneud ynghylch defnydd y safle yn y dyfodol. Dylid hefyd ystyried yr effaith bosibl ar safleoedd o bwysigrwydd archeolegol. Ni ddylai cyfleusterau gael effaith niweidiol ar ardaloedd neu safleoedd a glustnodir ar gyfer gwarchodaeth, megis:

- Gwarchodfeydd Natur Lleol;
- Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur;
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig;
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig; neu
- Safleoedd Ramsar.

## SŴN

7.10 Rhoddir ystyriaeth i effaith cynigion gwastraff ar ddatblygiadau preswyl a derbynyddion sŵn sensitif eraill. Mae'n debyg y caiff amodau cynllunio eu gosod i gyfyngu ar faint y sŵn a chyfyngu ar yr amser gweithredu.

## AROGLEUON

7.11 Gall cyfleusterau gwastraff gynhyrchu arogleuon annymunol a bydd angen ystyried y rhain yn llawn yn ystod y cam ceisiadau cynllunio. Gall mesurau i sicrhau y defnyddir technegau atal arogleuon gael eu rheoli gan amodau cynllunio.

## AMDDIFFYN DŴR WYNEB A DŴR DAEAR

7.12 Mae effeithiau posibl ar ddŵr wyneb a dŵr daear yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. Caiff amodau cynllunio eu gosod i sicrhau nad oes perygl o ddŵr ffo, gollyngiadau na llygredd trwytholch mewn dŵr wyneb neu ddŵr daear. Mae'n annhebygol y bydd cyfleusterau rheoli gwastraff a gynigir mewn ardaloedd sy'n gorlifo'n rheolaidd neu sydd mewn perygl o lifogydd yn dderbyniol. Mewn ardaloedd lle mae llifogydd yn bosibl, ystyrir y llygredd posibl i ddŵr wyneb neu ddŵr daear.

## TRAFNIDIAETH

7.13 Gall cyfleusterau rheoli gwastraff achosi nifer fawr o symudiadau modurol. Rhoddir ystyriaeth i'r traffig sy'n debygol o gael ei gynhyrchu oherwydd y cynnig. Yn ddelfrydol, dylai safleoedd fod mewn lleoliad da yn nhermau'r rhwydwaith ffyrdd sylfaenol, neu'n agos at ffyrdd o deithio eraill. Gellir gwrthod caniatâd cynllunio os nad yw'r rhwydwaith ffyrdd presennol yn gallu cefnogi'r symudiadau modurol ychwanegol sy'n debygol o gael eu creu, neu os bydd yr effaith draffig ar gymunedau lleol yn annerbyniol neu os na ellir lleihau'r effeithiau hynny.

## EFFAITH WELEDOL

7.14 Gall datblygu cyfleusterau gwastraff gael effeithiau sylweddol ar dirwedd ac amwynderau gweledol, yn dibynnu ar y math o gyfleuster a gynigir a'i leoliad. Gallai sgrinio a byndiau amwynder fod yn ofynnol i leihau'r effaith bosibl.

## 8. MESURAU LLINIAROL

**AMODAU CYNLLUNIO**

8.1 Dylid disgwyl cael ystod o amodau ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd a roddir ar gyfer cyfleuster rheoli gwastraff er mwyn mynd i'r afael â phryderon amgylcheddol arbennig. Gallai'r rhain gynnwys:

- Trafnidiaeth, mynediad a symudiadau cerbydau;
- Cyfyngiad ar y mathau neu niferoedd o wastraff y gellir eu derbyn;
- Oriau gweithredu;
- Cyfyngiadau sŵn;
- Graddfa amser gweithrediadau;
- Effaith weledol a thirlunio;
- Cynllun safle;
- Adferiad ac ôl-ofal.

8.2 Fodd bynnag, dylid nodi, pan na ellir mynd i'r afael â phroblemau o'r fath trwy fesurau lliniarol mewn modd boddhaol, mae'n annhebygol y rhoddir caniatâd.

**ORIAU GWEITHREDU**

8.3 Caiff oriau gweithredu cyfleuster eu cysylltu'n agos at faterion rheoli sŵn, symudiadau traffig a lefelau golau. Rhoddir amod sy'n amlinellu oriau gweithio ynghlwm wrth bob cyfleuster rheoli gwastraff. Pan fo safleoedd wedi eu lleoli'n agos at ardaloedd preswyl neu ddefnyddiau tir sensitif eraill, fel arfer ni fydd yn briodol i ganiatáu gweithrediadau neu symudiadau traffig sy'n digwydd gyda'r nos, ar ddyddiau Sul neu wyliau banc. Fodd bynnag, deellir y gallai rhai gweithgareddau orfod gweithredu 24 awr y dydd, megis cynnal a chadw gwaith, cyfleusterau i reoli allyriadau nwyon, a phwmpio dŵr wyneb.

## 9. TRWYDDEDU

9.1 Mae trwydded rheoli gwastraff yn ofynnol o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae angen trwyddedau er mwyn adfer, cludo, gollwng neu waredu gwastraff. Maent yn sicrhau nad yw'r gweithgareddau awdurdodedig yn llygru'r amgylchedd, yn niweidio iechyd pobl nac yn peri niwed difrifol i amwynderau lleol.

9.2 Mae caniatâd cynllunio yn ofynnol cyn y gellir rhoi trwydded newydd neu drwydded rheoli gwastraff. Dylai datblygwyr sy'n ystyried datblygu unrhyw gyfleuster rheoli gwastraff drafod y cynnig gyda'r awdurdod cynllunio lleol a'r rheoleiddiwr rheoli llygredd perthnasol. Gellir cael cyngor pellach gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

## 10. ASESIADAU CYNLLUNIO GWASTRAFF

10.1 Cyflwynodd Nodyn Cyngor Technegol 21 ofyniad y dylai pob cais am gyfleuster gwastraff sydd ar gyfer gollwng, adfer neu ailgylchu gael ei gyflwyno ynghyd ag Asesiad Cynllunio Gwastraff. Dylai hwn gynnwys yr holl wybodaeth sy'n angenrheidiol i alluogi i'r awdurdod cynllunio wneud penderfyniad ynghylch y cais.

10.2 Dylai'r Datganiad Cynllunio Gwastraff gynnwys:

**DATGANIAD POLISI GWASTRAFF**

- Disgrifiad o'r modd y bydd y cynigion yn cyfrannu at ddarpariaethau perthnasol 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' a Chynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd;
- Datganiad o gydymffurfio â pholisi sy'n gysylltiedig ag angen a gofynion lleoliad;
- Amcangyfrif o'r galw presennol a galw arfaethedig yn y dyfodol;
- Nodi'r marchnadoedd a fydd yn cael eu gwasanaethu gan y datblygiad arfaethedig;
- Amcangyfrif i nodi'r diffygion presennol o ran capasiti trin;
- Disgrifiad o'r ymgynghoriad a wnaethpwyd gan yr ymgeisydd;
- Datganiad wedi'i lofnodi sy'n tystio bod yr ymgeisydd, wrth wneud cais, wedi cymryd sylw dyledus o'r hierarchaeth gwastraff.

**AMSERLEN**

- Hyd oes y gweithrediad, gan gynnwys unrhyw fesurau arfaethedig er mwyn ei ddiogelu am y dyfodol;
- Diwrnodau ac oriau gweithredu.

**MATHAU A MEINTIAU'R GWASTRAFF I'W RHEOLI**

- Maint blynyddol amcangyfrifiedig o bob math o wastraff i'w dderbyn a chyfanswm capasiti amcangyfrifiedig, lle bo'n berthnasol;
- Cyrchfan unrhyw ôl-gynnyrch (gwaddodion ac unrhyw ddeunyddiau peryglus) o'r safle;
- Y meintiau lleiaf a mwyaf gallai'r cyfleuster eu prosesu a pharhau i fod yn weithredol;
- Cyfanswm y gwastraff (mewn tunelli) y mae'r cyfleuster wedi'i ddylunio i'w drin.

**DYLUNIAD, CYNLLUN, ADEILADAU A GWEITHFEYDD**

- Y prosesau cysylltiedig, gan gynnwys cludiant i ac o'r safle;
- Cynllun a dyluniad adeiladau, gweithfeydd, ardaloedd gweithredol, ffyrdd halio a goleuadau allanol;
- Manylion ynglŷn â nwy tirlenwi a rheoli trwytholch, os yn berthnasol;
- Prosesau adfer arfaethedig ac ôl-ofal.

**AMWYNDERAU A PHOENDOD**

- Cyfaddasrwydd y datblygiad arfaethedig gyda defnyddiau tir cyfagos neu sydd ohoni;
- Mesurau i rwystro a rheoli halogi tir, llygredd golau, sŵn, aroglau, llwch, adar a fermin, ac ysbwriel;
- Unrhyw allyriadau sy'n gysylltiedig â'r gweithrediadau arfaethedig.

**LLYGREDD AER**

- Effaith allyriadau ar yr awyrgylch oherwydd unrhyw nwyon a gynhyrchir trwy brosesau adfer/triniaeth arbenigol.

**EFFEITHLONRWYDD YNNI** (os yn berthnasol)

- Esboniad ynghylch sut caiff ynni a adferir trwy'r broses losgi ei fwyafu;
- Tystiolaeth y byddai neu na fyddai'r cynnig yn bodloni amcangyfrif effeithlonrwydd ynni R1.

10.3 Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ynglŷn ag asesiadau cynllunio gwastraff yn Atodlen B Nodyn Cyngor Technegol 21.